

## **Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf /  
Ysbyty Brenhinol Morgannwg /  
Gwasanaethau Mamolaeth

Dyddiad arolygu: 15 - 17 Hydref 2018

Dyddiad cyhoeddi: 21 Ionawr 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	10
	Ansawdd profiad y claf .....	12
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf?.....	32
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai .....	33
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	34
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	35
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	45

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

## Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

**Rhoi sicrwydd:**

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 15, 16 ac 17 Hydref 2018. Cynhaliwyd yr arolygiad mewn ymateb i nifer o bryderon a godwyd am ddarpariaeth gofal diogel, materion staffio, adrodd am ddigwyddiadau a sefydlogrwydd y gwasanaeth.

Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty Brenhinol Morgannwg

- Ward 10
- Ward 11
- Ward esgor.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau adolygwr AGIC (un ohonynt yn arwain yr arolygiad a'r llall yn gyfarwyddwr clinigol), adolygwr cymheiriaid clinigol ac adolygwr lleyg.

Dechreuodd yr arolygiad ar noson 15 Hydref, gan barhau dros y ddau ddiwrnod nesaf.

Edrychodd AGIC ar y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, roedd gennym bryderon ynghylch cynaliadwyedd, gwydnwch a gallu'r gwasanaeth i ddarparu gofal a thriniaeth mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Er gwaethaf ymdrechion gorau ac ymroddiad y staff sy'n gweithio'n galed iawn ar y wardiau, gwelsom fod gan y gwasanaeth broblemau staffio sylweddol. Roedd hyn yn effeithio ar y gallu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys

- Problemau staffio yn effeithio'n andwyol ar iechyd, diogelwch, morâl a llesiant y staff
- Dywedodd y staff sy'n gyfrifol am adolygu digwyddiadau a phryderon eu bod yn aml yn methu â gwneud hyn yn brydlon
- Yn aml, nid oedd y staff yn gallu mynychu hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i wneud eu gwaith
- Nid oedd dyletswyddau hanfodol, fel archwiliadau ar y wardiau, yn cael eu cynnal.

Er i'r staff ddweud wrthym eu bod yn teimlo bod eu rheolwyr llinell uniongyrchol yn eu cefnogi, roedd yn destun pryder clywed llawer ohonynt yn dweud bod yr amgylchedd gwaith yn anodd. Roedd llawer ohonynt yn teimlo na fyddai'r sefydliad yn cymryd camau i fynd i'r afael â digwyddiadau a phryderon nac yn dysgu gwersi oddi wrthynt.

Gwelsom fod diffyg cysylltiad rhwng nifer o grwpiau proffesiynol yn y gwasanaeth, a oedd yn effeithio ar weithio amlddisgyblaethol effeithiol.

O ganlyniad i'n canfyddiadau, ni chawsom sicrwydd bod prosesau llywodraethu a goruchwyliaeth ddigonol ar waith i wneud yn siŵr

bod gweithgareddau fel archwilio yn cael eu cynnal er mwyn gwella'r gwasanaeth, na bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion.

Gwnaethom gydnabod bod y bwrdd iechyd wedi ceisio gwneud newidiadau er mwyn gwella staffio, diwylliant, hyfforddiant a llywodraethu yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, megis dechrau oedd unrhyw newidiadau ac nid oeddent wedi'u sefydlu'n llawn eto.

Er mwyn iechyd a llesiant y staff, ac er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi blaenoriaeth i weithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth
- Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal a thriniaeth mewn ffordd urddasol a oedd yn diogelu preifatrwydd y claf
- Roedd y staff yn gweithio'n galed i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf o dan amgylchiadau anodd a heriol.

O ganlyniad i'n canfyddiadau mewn rhai meysydd a oedd yn peri pryder, cyhoeddodd AGIC lythyr sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Roedd gan y bwrdd iechyd saith diwrnod i ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol am unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd neu a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r pryderon a ddisgrifiwyd. Roedd crynodeb fer o'r materion yn cynnwys;

- Anallu'r gwasanaeth i sicrhau bod digon o staff cymwysedig ac anghymwysedig yn gweithio ar bob sifft mewn ffordd gyson
- Staff yn gweithio oriau hir a sifftiau ychwanegol i gyflenwi ar gyfer prinder staff
- Roedd cymysgedd sgiliau'r staff ar y sifftiau yn ddiffygiol o bosibl wrth i staff gael eu tynnu o wasanaethau mamolaeth nad oeddent yn rhai aciwt, a oedd yn aml â sgiliau a phrofiad gwahanol iawn, i gyflenwi ar gyfer prinder staff ar sifftiau

- Anallu'r staff i gwblhau hyfforddiant gorfodol, adolygu digwyddiadau a chwblhau archwiliadau wardiau oherwydd problemau staffio a blaenoriaethau clinigol
- Pryderon yn ymwneud â chynaliadwyedd y gwasanaeth ac iechyd a llesiant y staff
- Nid oedd cyffuriau ac offer a ddefnyddiwyd mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Yn ogystal â'r materion a nodwyd yn ein llythyr sicrwydd uniongyrchol, gwnaethom argymhellion hefyd ar gyfer meysydd i'w gwella fel yr amlinellir isod:

- Y wybodaeth a oedd ar gael i gleifion am y broses gwynion a'r gwasanaethau eirioli
- Trefniadau diogelwch ar gyfer cael mynediad i'r wardiau
- Sicrhau bod lefelau stoc digonol o gyfarpar diogelu personol
- Rhai o'r trefniadau ar gyfer storio cyffuriau a'u gwirio'n ddiogel
- Gallu'r staff i gael gafael ar niferoedd digonol o offer megis sonicaids<sup>1</sup>, teclynnau monitro cardiocograffeg<sup>2</sup> (CTG) a pheiriannau monitro pwysedd gwaed
- Cyfathrebu â'r staff, yn arbennig mewn cysylltiad â newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu
- Adborth i'r staff am bryderon a chwynion
- Gallu'r staff i fwrw golwg dros adroddiadau digwyddiadau yn brydlon
- Archwiliadau ar y wardiau a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gweithgarwch hwn

---

<sup>1</sup>Dyfais llaw ar gyfer monitro'r ffetws

<sup>2</sup>Peiriant a ddefnyddir i gofnodi curiad calon y ffetws

- Pryderon am y diwylliant o ran gweithio'n effeithiol fel tîm ac iechyd a llesiant y staff
- Hyfforddiant a goruchwyliaeth i'r staff

Gellir gweld manylion llawn y gwelliannau a nodwyd yn ystod ein harolygiad yn Atodiad C o'r adroddiad hwn.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Cwm Taf ym mis Hydref 2009 ac enillodd statws Prifysgol ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i bobl sy'n byw ym Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ar gyfer de Cymru ac yn gorff cartref ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

Mae Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn darparu gwasanaethau aciwt brys a gwasanaethau meddygol dewisol a gwasanaethau llawfeddygol ynghyd ag amrywiaeth o gyfleusterau diagnostig.

Mae'r gwasanaeth mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynnwys swît esgor gyda phum ystafell esgor. Ceir hefyd Uned Fydwreigiaeth Wrth Ochr (AMU) sy'n darparu gofal a arweinir gan fydwagedd, yn cynnwys dwy ystafell eni, gyda phwll geni mewn un ohonynt.

Mae 22 o welyau yn Ward 10 (mewn cyfuniad o faeau ac ystafelloedd ochr), gan ddarparu gofal ôl-enedigol a chynenedigol.

Mae Ward 11 yn cynnwys pum gwely sydd wedi'u neilltuo i ddarparu gofal mwy dwys i famau sydd angen cymorth ychwanegol ar ôl geni, ac ymyriadau meddygol fel genedigaethau Cesaraidd. Hefyd, ceir bae gyda chwe gwely sydd wedi'u neilltuo i ddarparu gwasanaethau brysbennu i gleifion, gan gynnwys darparu gofal i gleifion sy'n cael triniaeth ysgogi'r esgor.

Mae uned asesu ddydd yn Ward 11 hefyd, sy'n cynnwys pum gwely lle gall cleifion cael gafael ar y gwasanaethar gyfer apwyntiadau dydd, fel monitro'r ffetws a thrwythiadau haearn. Nid roddwyd ystyriaeth fanwl i'r ardal hon o Ward 11 yn ystod yr arolygiad.

Mae gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg hefyd yn cynnwys clinig cynenedigol, sy'n darparu gwiriadau cynenedigol a gwasanaethau sganio rheolaidd. Ni chafodd yr ardal hon ei chynnwys yn yr arolygiad.

Yn ddiweddar, cadarnhaodd y bwrdd iechyd y byddai'r gwasanaethau mamolaeth a ddarperir yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn newid, o fis Mawrth

2019<sup>3</sup>. Nid fydd yr ysbyty yn darparu gwasanaethau mamolaeth a arweinir gan feddyg ymgynghorol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg mwyach, gan olygu y bydd menywod sydd angen y gwasanaeth hwn yn derbyn gofal yn Ysbyty Tywysog Siarl, Merthyr Tudful.

---

<sup>3</sup> <http://cwmtaf.wales/update-on-changes-to-maternity-and-childrens-inpatient-services-at-royal-glamorgan-hospital/>

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd y tîm a welsom yn ymrwymedig i ddarparu gofal a thriniaeth i gleifion gydag urddas a pharch. Gwelsom y staff yn gweithredu'n dosturiol ac yn gwarchod preifatrwydd ac urddas y cleifion a'u teuluoedd.

Roedd amgylchedd y wardiau wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn daclus ar y cyfan.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom farn y cleifion am y gofal a'r driniaeth a ddarperir, drwy siarad yn uniongyrchol â nhw a thrwy holiaduron AGIC a gwblhawyd. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

*"Mae'r staff wedi bod yn gefnogol ac yn ofalgar iawn"*

*"Rydw i wedi dewis trosglwyddo fy ngofal o (ysbyty arall).  
Rwyf wedi cael profiad gwych ac rwy'n falch cael bod yma  
eto"*

Roedd trafodaethau gyda chleifion a'r wybodaeth a gasglwyd yn yr holiaduron hyn yn dangos bod y cleifion yn gadarnhaol am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt gan y staff.

### **Cadw'n iach**

Gwelsom fod gwybodaeth wedi'i harddangos ar y wardiau yn darparu gwybodaeth i gleifion am aros yn iach, gan gynnwys gwybodaeth am smygu yn ystod beichiogrwydd a bwyta'n iach.

### **Gofal gydag urddas**

Roedd yr holiaduron yn holi'r cleifion p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am staff yr ysbyty. Roedd pob claf yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrandao arny'n nhw a'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff wedi cyfeirio atynt gan ddefnyddio eu henw dewisol.

Gwelsom fod gofal yn cael ei roi i'r cleifion mewn modd sensitif, a phan oedd yn briodol, roedd drysau a llenni'n cael eu cau er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd gan y ward esgor ystafelloedd unigol, gyda dwy ystafell yn rhannu cyfleusterau ystafell ymolchi. Roedd Ward 10 yn cynnwys cymysgedd o ystafelloedd sengl a baeau bach gyda chyfleusterau ystafell ymolchi en-suite ac wedi'u rhannu.

Roedd Ward 11 yn cynnwys dau fae, gyda'r cleifion yn rhannu cyfleusterau ystafell ymolchi.

Roedd ystafell fwydo ar gael i'r cleifion ei defnyddio, sef ystafell breifat i gleifion pe byddent yn dymuno bwydo'u baban ger cleifion eraill neu ymwelwyr.

Gellid darparu cefnogaeth sensitif ar adeg anodd, pan fo rhieni yn galaru yn sgil marwolaeth baban. Roedd ystafell breifat gymharol gyfforddus ar gael gyda lle i ddau berson gysgu, lle gallai'r rhieni dreulio cymaint o amser ag yr oedd ei angen arnynt gyda'u baban yn ystod eu profedigaeth. Dywedodd y bwrdd iechyd wrthym ei fod wrthi'n penodi bydwaig profedigaeth arbenigol i gefnogi rhieni ar yr adeg anodd hon.

Roedd cleifion yr oedd angen ymyriad llawfeddygol brys (fel genedigaeth gesaraidd) arnynt yn cael eu trosglwyddo i theatrau mamolaeth a oedd drws nesaf i'r ward esgor.

Cawsom rai sylwadau gan bartneriaid geni a soniodd am ddiffyg cyfleusterau toiled wrth gefnogi eu partneriaid wrth iddynt roi genedigaeth. Roedd y cyfleusterau agosaf ar lawr gwaelod yr ysbyty. Soniodd y partneriaid geni bod hyn yn golygu y gallai eu partneriaid gael eu gadael heb gefnogaeth teulu wrth iddynt roi genedigaeth. Dywedodd y staff wrthym yr arferai fod cyfleusterau o'r fath ond y cafwyd gwared arnynt er mwyn creu lle ar gyfer yr Uned Fydwreigiaeth Wrth Ochr.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu cyfleusterau toiled i bartneriaid geni yn ystod y broses esgor.

## Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i gleifion ar y ward, wedi'i harddangos ar hysbysfyrddau. Roedd y wybodaeth yn cynnwys cyngor cynenedigol ac ôl-enedigol. Hefyd, gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn pecyn ôl-enedigol a roddir i'r cleifion pan fyddant yn gadael y ward.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Cadarnhaodd y cleifion yn yr holiaduron eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith. Roedd system ddolen i gleifion ag anawsterau clywed.

Gwelsom fod gan y wardiau Fyrddau Cypolwg ar Ddiogelwch Cleifion<sup>4</sup>, nad oeddent yn weladwy i ymwelwyr.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff wedi siarad â nhw am eu gofal er mwyn eu helpu i ddeall beth oedd yn digwydd iddynt.

Gwnaethom siarad â bydwraig ymgynghorol newydd ei phenodi, a oedd i'w gweld yn frwdfrydig, yn llawn cymhelliant ac yn wybodus, a gyflogwyd i wella'r broses gyfathrebu rhwng y timau staff bydwreigiaeth ac obstetreg yn y bwrdd iechyd, a hyrwyddo arfer gorau a chefnogi'i chydweithwyr yn y tîm bydwreigiaeth. Roedd effaith lawn y rôl hon eto i'w gweld, ond yr adborth a gafwyd gan y staff oedd ei bod yn rôl gadarnhaol a oedd yn ymgysylltu â staff ym mhob maes er mwyn annog gweithio amlddisgyblaethol.

## Gofal amserol

Gwnaethom siarad â nifer o staff yn ystod yr arolygiad, a daeth wyth holiadur staff wedi'i gwblhau i law. Dywedodd llawer o'r staff wrthym eu bod yn aml yn methu â bodloni'r holl alwadau cystadleuol ar eu hamser yn y gwaith, er eu bod

---

<sup>4</sup>Mae bwrdd Cypolwg ar Statws Cleifion yn ffordd glir a chyson o arddangos gwybodaeth am gleifion i staff mewn wardiau ysbyty.

yn ymrwymedig i ddarparu gofal amserol. Caiff manylion pellach am staffio ac adnoddau eu harchwilio yn nifer o adrannau'r adroddiad hwn.

Dyweddodd dau glaf wrthym eu bod wedi gorfod aros am gryn dipyn o amser ar ôl gofyn am feddyginiaeth lleddfu poen, ond gwnaethant egluro eu bod yn deall bod y staff yn brysur gyda chleifion eraill. Golyga hyn ei bod yn bosibl bod rhai cleifion heb dderbyn meddyginiaeth lleddfu poen mewn modd amserol oherwydd argaeledd staff.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Dyweddodd y cleifion a'u partneriaid wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys yn llawn ym mhob penderfyniad am enedigaeth eu baban a'i ôl-ofal uniongyrchol. Gwelsom fod yr AMU yn cynnig pwll geni, a oedd yn faes o arfer da.

### **Hawliau pobl**

#### **Gwrando a dysgu o adborth**

Nid oedd proses Gweithio i Wella<sup>5</sup> GIG Cymru yn cael ei harddangos i'r cleifion, nac ychwaith fanylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer y cleifion hynny a allai fod yn dymuno cael cymorth i godi pryder neu wneud cwyn am eu gofal neu eu triniaeth.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn ceisio profiadau cleifion a'u bod yn cael eu rhannu â'r staff drwy gylchlythyr misol. Gwelsom fod hyn yn caniatáu i staff weld safbwynt y claf ar ei brofiad.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn ceisio mynd i'r afael yn gyflym ag unrhyw gwynion gan gleifion tra byddent ar y ward, er mwyn helpu i ddatrys unrhyw broblemau'n gyflym. Dywedodd yr uwch aelodau o'r staff wrthym y byddai'r broses Gweithio i Wella yn ymdrin ag unrhyw gwynion ffurfiol a ddeuai i law.

---

<sup>5</sup>Gweithio i Wella yw'r trefniadau ar gyfer rheoli pryderon (cwynion) am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth am Gweithio i Wella, er mwyn cefnogi cleifion a allai ddymuno codi pryder neu wneud cwyn, gan gynnwys arddangos y manylion cyswllt ar gyfer y Cyngor Iechyd Cymuned.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Er i ni weld bod y staff yn gweithio'n galed i flaenoriaethu gofal i gleifion, ni chawsom sicrwydd y gellid cynnal y gwasanaeth mewn ffordd ddiogel. Y rheswm am hyn oedd am fod pwysau staffio sylweddol yn effeithio ar allu'r staff i gyflawni dyletswyddau hanfodol megis archwiliadau, adolygiadau o ddigwyddiadau a hyfforddiant gorfodol.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â nifer o faterion er mwyn sicrhau y gall ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion, ac i gefnogi iechyd a llesiant y staff.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Rhodddwyd mynediad i ward 10 a ward 11 drwy system intercom. Roedd gan y ward esgor ei system intercom ei hun i gleifion er mwyn rhoi mynediad uniongyrchol i'r ardal hon. Gwelsom fod y staff yn gofyn i ymwelwyr yn gwrtais beth oedd y rheswm dros eu hymweliad cyn caniatáu iddynt fynd i mewn. Roedd yn destun pryder ein bod wedi cael ein gadael ar ein pen ein hunain am gyfnod o amser ar ôl cael mynediad cychwynnol i ward 10 a ward 11 ac na wnaeth y staff ein holi ni pam ein bod yno.

Gwelsom fod cyfarpar wedi'i adael yn y coridorau mewn rhai ardaloedd, er enghraifft trolïâu y tu allan i'r theatrau. Er nad oedd hyn yn amharu ar y gallu i symud yn ddiogel, roedd yn golygu nad oedd y coridorau'n glir. Hefyd, gwelsom fatiau ar lawr yr AMU a allai fod yn berygl baglu am nad oeddent wedi'u diogelu'n briodol. Hefyd, nid oedd ffordd ddiogel amlwg i fenywod fynd i mewn ac allan o'r pwll geni.

Gwelsom fod yr asesiadau risg perthnasol wedi'u cwblhau fel rhan o'r broses o dderbyn y claf i'r ysbyty.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cedwir y trefniadau mynediad i'r wardiau yn ddiogel er mewn amddiffyn y staff a'r cleifion.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw'r matiau yn yr ystafell eni yn yr AMU yn peri perygl y bydd staff a chleifion yn baglu.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffordd ddiogel o fynd i mewn ac allan o'r pwll geni.

## Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod yr ardaloedd clinigol yn lân ac yn daclus. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod o'r farn bod y wardiau'n lân ac yn daclus.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal; fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y stoc yn isel ar ward 11.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu ar gael, ynghyd â phosteri yn arddangos y weithdrefn golchi dwylo gywir i'w dilyn fel dull gweledol o atgoffa'r staff. Gwelsom y staff yn golchi eu dwylo'n briodol ac yn defnyddio menig yn ôl yr angen. Gwelsom hefyd fod gwelyau cleifion yn cael eu sychu a'u glanhau â lliain ar ôl iddynt gael eu defnyddio gan glaf.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau ym mis Medi 2018, a dynnodd sylw at nifer o feysydd i'w gwella. Gwnaethom nodi yr ymdriniwyd â rhai o'r gwelliannau, ond nid pob un ohonynt. Fodd bynnag, roedd cynllun gweithredu ar waith i fynd i ymdrin â'r camau gweithredu a oedd yn weddill.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gwiriadau nac archwiliadau rheoli heintiau wardiau lleol yn cael eu cynnal. Dywedodd y staff wrthym fod staff y wardiau wedi cynnal archwiliadau o'r fath yn flaenorol, gan gynnwys gwiriadau hylendid dwylo a gwiriadau amgylcheddol, ond nad oeddent wedi cael eu cynnal ers dechrau'r flwyddyn. Dywedwyd wrthym y disgwylir i'r rhain gael eu cynnal bob wythnos. Dywedodd y staff wrthym fod gofalu am gleifion yn cael blaenoriaeth, oherwydd y pwysau staffio a'r cyfyngiadau amser. O ganlyniad, nid odd unrhyw wybodaeth ar gael i gleifion am gyfraddau rheoli heintiau neu gydymffurfiaeth ag arfer gorau o ran hylendid dwylo, gan nad oedd y

wybodaeth hon wedi cael ei chasglu. Gwneir argymhelliad yn hyn o beth yn yr adran o'r adroddiad ar Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

Nid oedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wedi cael hyfforddant ar reoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ei bod yn anodd cael gafael ar hyfforddiant oherwydd pwysau staffio, a olygai eu bod yn aml yn cael eu tynnu oddi ar gyrsiau hyfforddi, neu fod cyrsiau'n cael eu canslo oherwydd bod gofal clinigol yn cael blaenoriaeth. Gwneir argymhelliad yn hyn o beth yn yr adran o'r adroddiad ar Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau stoc y cyfarpar diogelu personol yn cael eu cynnal yn ddigonol bob amser er mwyn cefnogi'r staff i ymgymryd â'u rolau.

### Maeth a hydradu

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur, a'r rheini a siaradodd â ni, eu bod wedi cael amser i fwyta'u bwyd ar eu cyflymder eu hunain a bod dŵr ar gael iddynt. Hefyd, roedd gan staff y ward dalebau bwyd er mwyn cael bwyd poeth i fenywod pan nad oedd ar gael ar y wardiau. Roedd hyn, ynghyd â'r brechdanau a ddarparwyd, yn rhoi rhywfaint o ddewis i'r cleifion pan oedd angen bwyd arnynt y tu allan i amserau bwyd arferol.

### Rheoli meddyginiaethau

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar gyfer rheoli'r meddyginiaethau a ddefnyddiwyd yn ddiogel yn yr ardaloedd clinigol y gwnaethom ymweld â nhw.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r meddyginiaethau'n cael eu storio'n gywir ac yn ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd modd cloi'r oergelloedd lle roedd y meddyginiaethau'n cael eu storio mewn unrhyw ardal glinigol. Hefyd, nid oedd tymheredd oergelloedd yn cael ei wirio a'i fonitro'n ddyddiol i sicrhau'r tymheredd optimaidd ar gyfer storio meddyginiaethau y mae'n rhaid eu hoeri.

Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu storio'n ddiogel, yn ogystal â'r trolïau cyffuriau. Er i ni weld bod gwiriadau wedi'u cynnal a'u cofnodi'n gywir o ran y cyffuriau a reolir, nid oeddent yn cael eu cynnal yn gyson bob dydd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddyginiaeth a gwelsom eu bod wedi cael eu cwblhau'n gywir. Gwnaethom arsylwi ar ran o rownd feddyginiaeth ar ward 10 a gwelsom fod y staff wedi cynnal y gwiriadau priodol i gefnogi proses ddiogel o roi meddyginiaethau.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd cloi oergelloedd meddyginiaeth a'u bod yn cael eu cadw dan glo pan na fyddant yn cael eu defnyddio, a bod y staff yn cofnodi tymheredd yr oergelloedd yn ddyddiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau cyffuriau a reolir yn cael eu cynnal yn gyson bob dydd.

### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd mesurau diogelwch ar waith i ddiogelu cleifion o fewn y wardiau/unedau. Gwelsom fod tagiau'n cael eu rhoi ar y babanod tra byddant ar y wardiau i'w diogelu.

Gallai'r staff fynd at y swyddog diogelu arweiniol i gael cyngor a chymorth gyda materion diogelu. Roedd y broses ddiogelu wedi'i disgrifio'n fanwl, gan ddangos bod timau'n gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol wrth ymdrin â materion diogelu.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Yn ôl y staff, roedd prinder rhai eitemau o offer a oedd yn eu hatal rhag cyflawni eu dyletswyddau mewn modd amserol. Roedd y cyfryw eitemau'n cynnwys sonicaids<sup>6</sup>, teclynnau monitro cardiocograffeg<sup>7</sup> a pheiriannau monitro pwysedd gwaed. Dywedodd y staff eu bod yn aml yn treulio amser yn chwilio am offer, a oedd yn lleihau'r amser a oedd ganddynt i'w dreulio gyda chleifion, a gwelsom fod hyn yn wir.

---

<sup>6</sup>Dyfais llaw ar gyfer monitro'r ffetws

<sup>7</sup>Peiriant a ddefnyddir i gofnodi curiad calon y ffetws

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer gwirio'r offer dadebru ar ward 10, ward 11 a'r ward esgor.

Gwelsom y cedwir cofnod o'r gwiriadau a gynhaliwyd gan y staff ar yr offer i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, h.y. trolïau dadebru. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y gwiriadau hyn bob amser wedi'u cynnal yn ddyddiol fel sy'n ofynnol. Mae'r ffaith nad oedd gwiriadau cyson, rheolaidd yn cael eu cynnal yn peri risg nad yw'r trolïau dadebru yn cynnwys digon o offer/meddyginiaeth i'w defnyddio pe bai argyfwng yn codi gyda chlaf. Roedd yn siomedig gweld bod y mater penodol hwn wedi'i amlygu yn ystod arolygiad diweddar gan AGIC yn yr un ysbty, ac nad oedd y gwersi a ddysgwyd wedi'u rhannu er mwyn sicrhau bod mesurau priodol wedi'u rhoi ar waith.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn atodiad B.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyfarpar ar gael i'r staff er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau mewn modd amserol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dîm o staff ymroddedig ac ymrwymedig y bu'n rhaid iddynt, o dan bwysau sylweddol, flaenoriaethu anghenion uniongyrchol y cleifion ar draul meysydd ymarfer eraill.

Ar sail trafodaethau gyda nifer o staff yn y gyfarwyddiaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd, roeddem yn pryderu nad oedd staff ar gael i ddarparu gofal mewn ffordd ddiogel ac effeithiol o ganlyniad i broblemau staffio.

Gwelsom nad oedd y gyfarwyddiaeth yn gallu sicrhau'n gyson fod y nifer ofynnol o staff cymwysedig a staff anghymwysedig yn gweithio ar bob sifft. Roedd y staff yn aml yn gweithio oriau hir ar ben sifftiau arferol er mwyn helpu i gyflenwi ar gyfer y prinder staff hyn. Codwyd pryderon hefyd ynghylch p'un a oedd y cymysgedd priodol o sgiliau a phrofiad ar gael ar bob sifft oherwydd argaeledd staff.

Er i ni weld y staff yn blaenoriaethu anghenion clinigol a gofal y cleifion yn effeithiol, gwelsom fod hyn yn cael effaith bosibl ar gynaliadwyedd y gwasanaeth. Ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd roedd y canlynol: nid oedd staff yn gallu cwblhau hyfforddiant a nodwyd, nid oedd y staff yn gallu adolygu digwyddiadau a phryderon yn effeithiol (drwy Datix<sup>8</sup>) mewn modd amserol, ac nid oedd archwiliadau ward lleol yn cael eu cynnal oherwydd blaenoriaethau clinigol.

Roedd gennym bryderon hefyd am gynaliadwyedd y trefniadau gweithio yn y gwasanaeth, a'r effaith y gallai'r trefniadau hyn ei chael ar iechyd a llesiant y staff. Yn ystod yr arolygiad, roedd nifer o'r staff a ddaeth at y tîm arolygu yn pryderu am eu gallu i ddarparu gofal a thriniaeth i gleifion yn ddiogel. Roedd hyn o ganlyniad i faterion staffio hirdymor, gan gynnwys prinder staff a dibyniaeth ar barodrydd y staff i weithio oriau ychwanegol ar ben sifftiau gwaith arferol, ac mae posibilrwydd i hyn olygu bod y staff yn gwneud penderfyniadau anghywir am eu bod wedi blino. Nodwyd gennym hefyd fod nifer o'r staff wedi siarad â'r tîm arolygu mewn ffordd hynod emosiynol a bregus, gan ychwanegu at ein pryderon am eu hiechyd a'u llesiant.

Roeddem yn pryderu am y risg bosibl i ddiogelwch y cleifion. Y rheswm dros hyn oedd am nad oeddem o'r farn bod yr adran famolaeth, yn enwedig ward 10, ward 11 a'r ward esgor, yn ddigon cydnherth i sicrhau diogelwch y cleifion os na chymerir camau i fynd i'r afael â'r materion uchod.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Gwelsom fod newidiadau sylweddol yn mynd rhagddynt yn y gwasanaethau mamolaeth. Roedd gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd yn y camau olaf o gael eu had-drefnu. O fis Mawrth 2019, bydd Ysbyty Brenhinol Morgannwg ond yn darparu gofal a arweinir gan fydwragedd, gyda'r gofal a arweinir gan feddygon ymgynghorol yn cael ei ddarparu yn Ysbyty Tywysog Siarl. O ganlyniad i'r broses ad-drefnu, roedd y bwrdd iechyd yn recriwtio staff i

---

<sup>8</sup>System rheoli electronig ar gyfer cofnodi a rhoi gwybod am ddigwyddiadau a phryderon.

amrywiaeth o swyddi newydd, gan gynnwys bydwraig profedigaeth, bydwraig risg a llywodraethu a bydwraig ymgynghorol. Nod y penodiadau hyn oedd gwella profiad y claf, yn ogystal â gwella prosesau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cychwyn ar raglen newid, a bod prosesau newydd wrthi'n cael eu sefydlu.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn helpu i atal mynediad anawdurdodedig.

### Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom fod cofnodion y cleifion wedi'u cadw'n dda, yn glir ac wedi'u cwblhau'n brydlon.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion pum claf ôl-enedigol ar ward 10. Gwelsom fod sgoriau wedi'u rhoi wrth reoli poen a bod camau wedi'u cymryd a'u huwchgyfeirio yn ôl yr angen. Roedd asesiadau risg priodol wedi'u cynnal, gan gynnwys ar gyfer thrombosis gwythiennau dwfn.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dyddiadau wedi'u nodi ar bob tudalen yng nghofnodion rhai cleifion, ac nad oedd sticeri adnabod cleifion yn cael eu defnyddio ar bob tudalen.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys labeli adnabod cleifion priodol a dyddiadau ar bob tudalen.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd hi'n bryder gweld bod amrywiaeth eang o faterion roedd angen eu gwella yn y gwasanaeth, o ran cyfathrebu, diwylliant, hyfforddiant, arweinyddiaeth, staffio ac ymgysylltu amlddisgyblaethol.

Un o'r pryderon sylweddol oedd bod y rhan fwyaf o'r staff yn teimlo na fyddai'r sefydliad yn gweithredu yn dilyn digwyddiad neu pe bai pryder yn cael ei godi, ac na fyddai gwersi yn cael eu dysgu na'u rhannu yn y gwasanaeth.

Fodd bynnag, gwnaethom gydnabod fod y bwrdd iechyd wedi rhoi proses lywodraethu newydd ar waith yn ddiweddar iawn mewn cysylltiad â rhoi gwybod am bryderon ac ymchwilio iddynt, a megis dechrau oedd y gwaith o'i sefydlu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddangos proses lywodraethu gadarn yn ymwneud ag archwiliadau, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y problemau staffio sylweddol yn gysylltiedig ag amrywiaeth o bryderon am allu'r gwasanaeth i ddarparu gofal diogel ac effeithiol mewn ffordd gyson.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi blaenoriaeth i gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn, a hynny er mwyn iechyd a llesiant y staff ac er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd yn amlwg yn ystod yr arolygiad fod pwysau sylweddol ar y bwrdd iechyd, gyda phryderon a digwyddiadau wedi cael sylw cyhoeddus. Roedd y gyfarwyddiaeth wedi penodi rhai aelodau newydd o staff i atgyfnerthu a chefnogi newidiadau yn y gwasanaeth, ond roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau i brosesau a gweithdrefnau ar gam cychwynol a heb eu sefydlu'n llawn eto.

## Llywodraethu

Gwelsom fod y gwasanaeth wrthi'n trefnu nifer o gyfarfodydd rheolaidd i gefnogi prosesau a gweithdrefnau newydd eu sefydlu, gyda'r nod o well gwasanaethau ac atgyfnerthu trefniadau llywodraethu. Ymhlith y cyfarfodydd hyn roedd grŵp sicrwydd mamolaeth, a oedd yn cyfarfod yn wythnosol. Gwelsom gynllun gweithredu yn ymwneud â'r gwasanaeth mamolaeth a oedd yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella gan gynnwys y gweithlu, hyfforddiant, rhoi gwybod am ddigwyddiadau, cynllun sefydliadol a gwelliannau i wasanaethau. Roedd y gwelliannau wedi'u sgorio i dynnu sylw at feysydd lle roedd angen gweithredu fel blaenoriaeth, a gwelsom fod amserlenni wedi'u pennu ar gyfer cyflawni'r targedau.

Gwelsom gerdyn sgorio misol ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth a oedd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â pherfformiad clinigol. Dywedwyd wrthym fod y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i bwyllgor ansawdd a diogelwch cleifion y bwrdd iechyd yn chwarterol, ac y byddai'n llywio cofrestr risg y bwrdd iechyd. Roedd cofrestr risg benodol ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth wrthi'n cael ei datblygu. Fodd bynnag, ni wnaeth y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein harolygiad, gan gynnwys trafodaethau gyda'r staff, darparu sicrwydd bod themâu a thueddiadau yn y gyfarwyddiaeth yn cael eu nodi, ac yr ymdrinnir â nhw.

## Cyfathrebu

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda ac amlwg ar y wardiau yn uniongyrchol, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr y wardiau a'r cydgysylltwyr sifftiau. Dywedodd y staff bydwreigiaeth wrthym hefyd fod rhyngweithio da rhwng staff y ward a'r tîm anesthetig a oedd yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith amlddisgyblaethol ac yn cefnogi'r newidiadau parhaus i'r gwasanaeth.

Yn ôl y staff a gwblhaodd holiadur AGIC, nid yw'r cyfathrebu rhwng yr uwch reolwyr a'r staff byth yn effeithiol, neu'n effeithiol weithiau. Cafwyd enghreifftiau gan y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad lle roeddent wedi dysgu bod y gwasanaeth yn cael ei ail-ddylunio drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu gan gydweithwyr y tu allan i'r gyfarwyddiaeth.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn ceisio gwneud newidiadau a gwella'r broses o gyfathrebu drwy gylchlythyr misol, a oedd yn darparu gwybodaeth glinigol a gwybodaeth nad yw'n glinigol i'r staff. Gwelsom hefyd rifyn cyntaf o ddiweddariad wythnosol i'r staff a oedd yn rhoi gwybodaeth ac adborth, gan gynnwys adran 'dywedochni, gwnaethon ni', i gysylltu â'r staff a helpu i roi gwybod iddynt am y newidiadau mewn ymateb i awgrymiadau staff. Fodd bynnag, yn seiliedig ar yr adborth gan y staff, gwelsom fod angen gwella'r cyfathrebu ymhellach, yn enwedig am newidiadau sylweddol a'r pwysau trwm sydd ar y gwasanaeth ar hyn o bryd.

### **Rhoi gwybod am ddiwyddiadau a dysgu oddi wrthynt**

Er bod y bwrdd iechyd wedi defnyddio Datix ers tua 10 mlynedd, yn ddiweddar, roedd wedi rhoi proses lywodraethu newydd ar waith ar gyfer defnyddio'r system i roi gwybod am ddiwyddiadau. Y nod oedd sicrhau yr ymdrinnir â phob digwyddiad a phryder yn briodol, gan gynnwys sicrhau bod elfen o graffu er mwyn gwneud yn siŵr bod gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu â'r staff er mwyn atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto. Roedd y bwrdd iechyd newydd benodi person newydd i'r rôl bydwraig risg a llywodraethu, a fyddai'n arwain y broses. Roedd y broses yn cynnwys camau priodol yr oedd angen eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiwyddiadau neu gwynion a godwyd, a'u hadolygu, ac yn pennu amserlenni ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu.

Er bod y staff yn cytuno, neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am ddiwyddiadau, neu rai y bu bron iddynt ddiwydd, cafwyd ymateb cymysg o ran p'un oeddent yn credu y byddai'r sefydliad yn gweithredu i sicrhau na fyddent yn digwydd eto, gyda rhai yn credu na fyddai'n gweithredu. Roedd hefyd yn bryder bod pum aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wedi dweud wrthym eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn beio neu'n cosbi pobl sy'n gysylltiedig â gwallau, digwyddiadau neu rai y bu bron iddynt ddiwydd, gyda dim ond un person yn cytuno y byddai'r sefydliad yn gweithredu. Cafwyd ymatebion tebyg gan y staff y gwnaethom siarad â nhw, gyda rhai yn sôn bod diwylliant o feio sy'n arwain at fwrw bai ar unigolion.

Cawsom ymateb tebyg gan y staff mewn cysylltiad â dysgu o ddiwyddiadau. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw na roddir unrhyw adborth i'r staff ar ôl digwyddiadau yn y gwasanaeth gyda'r nod o rannu'r gwersi a ddysgwyd. Yn ôl y staff, er eu bod yn cael adborth pan oeddent wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiad yn uniongyrchol, teimlent mai cosbi oedd nod y broses hon yn hytrach na cheisio gwella.

Dywedodd y staff wrthym hefyd, fel rhan o'r broses newydd, y byddai digwyddiadau Datix yn cael eu dyrannu iddynt i'w hadolygu. Gan ddibynnu ar

ddifrifoldeb y digwyddiadau, byddai rhai ohonynt yn cael eu dyrannu i uwch aelodau o staff y ward. Roedd y broses newydd wedi pennu amserlenni ar gyfer cwblhau'r adolygiadau hyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd iawn eu cwblhau o fewn yr amserlenni hyn o ganlyniad i bwysau staffio. Dywedwyd wrthym nad oedd gan rai aelodau o'r staff unrhyw amser wedi'i neilltuo ar gyfer dyletswyddau nad oeddent yn glinigol, ac felly nad oedd modd iddynt gwblhau'r adolygiadau hyn o fewn sifft gwaith arferol. Mae hon yn rhan bwysig o'r broses adolygu, sy'n helpu i nodi sut a pham y mae digwyddiadau wedi digwydd, gyda'r nod o ddysgu oddi wrthynt a'u hatal, er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

### **Gweithgarwch archwilio**

Ac eithrio archwiliad rheoli heintiau blynyddol y bwrdd iechyd, ni welsom fod unrhyw archwiliadau wedi'u cynnal ar y ward. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yr arferai archwiliadau fel hylendid dwylo, cydymffurfiaeth â rowndiau ward, amgylchedd, peiriannau monitro babanod, a chychwyn esgor, gael eu cynnal, ond nad oeddent wedi cael eu cynnal ers nifer o fisoedd. Eglurodd y staff mai'r rheswm dros hyn oedd pwysau staffio a'r angen i flaenoriaethu gofal i gleifion.

Nid oedd yn glir pa brosesau oedd ar waith i sicrhau bod gan y bwrdd iechyd oruchwyliaeth o'r archwiliadau a gynhaliwyd ar y ward. O ganlyniad, nid oedd yn amlwg pa gamau yr oedd y bwrdd iechyd wedi'u cymryd neu heb eu cymryd, i fynd i'r afael â'r ffaith na chynhaliwyd yr archwiliadau hyn. Roeddem yn pryderu am y trefniadau llywodraethu cyffredinol, a'u gallu i sicrhau bod archwiliadau rheolaidd ac ystyron yn cael eu cynnal, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol.

### **Amgylchedd gwaith**

Yn ystod ein harolygiad, cawsom gyfle i siarad â nifer o aelodau o staff y gyfarwyddiaeth, wedi'u cyflogi mewn amrywiaeth o rolau. Roedd yn peri pryder i ni glywed bod diffyg cysylltiad cyffredinol rhwng y disgyblaethau proffesiynol yn y gweithlu. Nid oedd hwn wedi'i gyfyngu i un maes penodol, lefel benodol o'r hierarchaeth neu ran benodol o'r gweithlu. Drwy ein trafodaethau gyda'r staff, roedd yn amlwg y ceir diffyg ymddiriedaeth, cyfathrebu gwael a diffyg hyder mewn uwch reolwyr. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi ac, fel y soniwyd yn gynharach, roeddent o'r farn eu bod yn gweithio mewn amgylchedd a oedd yn eu cosbi. O ganlyniad, gwelsom fod morâl y staff yn isel iawn. Dywedodd uwch aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r pryderon a'u bod yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r materion hyn. Rhoesant enghraifft o drefnu digwyddiadau

hyfforddi amlddisgyblaethol er mwyn annog gweithio cadarnhaol fel tîm yn y gwasanaeth.

Er i ni glywed sylwadau cadarnhaol gan y staff am y gefnogaeth a'r ymgysylltiad gan y tîm anesthetig a'r tîm bydwreigiaeth, roedd sylwadau'r staff am y tîm obstetreg yn llai cadarnhaol. Dywedwyd wrthym nad oedd parodrwydd bob amser i gymryd rhan mewn digwyddiadau amlddisgyblaethol, fel hyfforddiant neu gyfarfodydd. Roedd yn gadarnhaol nodi, fodd bynnag, fod rhai o'r staff obstetreg wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r fydwaig ymgynghorol newydd ei phenodi wrth gefnogi adolygiadau gan gleifion.

Gwelsom hefyd gofnodion cyfarfod meddygon ymgynghorol obstetreg a gynecoleg a luniwyd ym mis Medi. Roedd yn siomedig nodi na wnaed ond cyfeiriadau cyfyngedig at y cynllun gweithredu a nodwyd fel rhan o'r gwelliannau cyffredinol i'r gwasanaeth, ac ni chyfeiriwyd ychwaith at risgiau clinigol yn y gwasanaeth mewn gwirionedd. Nid yw'n glir ymhle y trafodir y wybodaeth hon a pha un a gaiff camau eu cymryd yn briodol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod y llwybrau cyfathrebu wedi'u diffinio'n glir fel bod gan staff yr holl wybodaeth am newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u gwaith.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod cymorth ac adborth yn cael ei roi i staff ar ôl unrhyw faterion/pryderon a godir, mewn cysylltiad â darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am adolygu digwyddiadau Datix yn cael yr amser a'r adnoddau i allu gwneud hynny o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod archwiliadau priodol yn cael eu cynnal ar y wardiau er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod gweithio amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu er mwyn llesiant y staff a'r cleifion.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, gwelsom fod problemau staffio sylweddol yn y gwasanaeth. Dangosodd adolygiad o'r rotas staff yn arwain i fyny at yr arolygiad, ac ar ôl yr arolygiad, nad oedd y gwasanaeth yn gallu bodloni'r nifer ofynnol o staff ar bob sifft yn rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn parhau ac wedi bod yn digwydd ers amser hir. Dywedodd y staff a gwblhaodd holiadur a'r rheiny y gwnaethom siarad â nhw nad oedd byth digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, neu dim ond weithiau.

Gwnaeth trafodaethau ag uwch reolwyr ddangos eu bod yn ymwybodol iawn o'r materion staffio, a'u bod yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem, gan gynnwys drwy gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno rhaglen dreigl o recriwtio bydwragedd
- Talu goramser i staff i'w hannog i weithio sifftiau ychwanegol
- Tynnu bydwragedd o feysydd nad ydynt yn rhai aciwt, megis clinigau cynenedigol a'r gymuned, er mwyn cefnogi'r meysydd aciwt
- Gofyn i staff o Ysbyty Tywysog Siarl gyflenwi sifftiau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod potensial i'r diffyg staff effeithio ar allu'r gwasanaeth i barhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ymdriniwyd â'n pryderon am gynaliadwyedd y gwasanaeth drwy ein proses sicrwydd uniongyrchol, fel yr amlinellwyd yn yr adran o'r adroddid hwn ar ofal diogel ac effeithiol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn atodiad B.

### Arfarniadau a goruchwyliaeth

Cadarnhaodd yr uwch reolwyr a staff y wardiau fod proses arfarnu ar waith a oedd yn helpu i bennu anghenion hyfforddiant parhaus. Gwelsom fod nifer fawr o'r rhain wedi'u cwblhau eleni.

Gwelsom nad oedd gan y bwrdd iechyd ddigon o oruchwylwyr i ddarparu goruchwyliaeth glinigol i fydwragedd. Dywedwyd wrthym bod y bwrdd iechyd wrthi'n ceisio sefydlu model newydd ar gyfer goruchwyliaeth glinigol, er mwyn rhoi cymorth a chyfarwyddyd i'r staff. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y trefniadau ar gyfer darparu goruchwyliaeth glinigol i fydwragedd yn ddigonol i ddiwallu anghenion y staff.

## Hyfforddiant

Roedd cofnodion hyfforddi'r staff yn cael eu cadw gan y fydwraig datblygu ymarfer. Er i ni weld bod y fydwraig datblygu ymarfer yn gweithio'n galed iawn i gasglu'r wybodaeth hon a rheoli, cydgysylltu a monitro hyfforddiant staff, roedd y wybodaeth yn gyfyngedig ac nid oeddem wedi ein sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol perthnasol. Gwelsom hefyd nad oedd y staff bob amser yn gallu cael eu rhyddhau o'r dyletswyddau clinigol i fynychu hyfforddiant gorfodol/arall oherwydd y problemau staffio. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant PROMPT<sup>9</sup> wedi'i ganslo ar nifer o achlysuron o ganlyniad i'r pwysau staffio. Gwelsom hefyd gydymffurfiaeth wael â hyfforddiant cardiocograffeg (CTG). Er bod y fydwraig datblygu ymarfer wedi llunio rhaglen o hyfforddiant i'r staff, roedd y pwysau staffio yn aml yn golygu nad oedd y staff wedi gallu mynychu. Roedd y rhaglen hyfforddi a roddwyd ar waith yn golygu y dylai'r mwyafrif o'r staff dderbyn yr hyfforddiant cardiocograffeg gorfodol erbyn mis Chwefror 2019, gan ddibynnu ar argaeledd y staff.

Dyweddodd yr uwch reolwyr wrthym eu bod wrthi'n llunio matrices hyfforddiant ar gyfer y staff i gyd er mwyn pennu anghenion hyfforddi'r staff, a bod y broses yn mynd rhagddi. Mae'n hanfodol bod gan y gyfarwyddiaeth ddealltwriaeth drylwyr o wybodaeth, sgiliau a chymwyseddau eu gweithlu er mwyn sicrhau y gall ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom gydnabod y gwaith a wnaed gan y fydwraig datblygu ymarfer wrth gefnogi bydwagedd sydd newydd gymhwyso i ymuno â'r gwasanaeth, gan gynnwys datblygu'r pasbort ar gyfer rhaglen '*prep to practice*'. Roedd hwn yn cefnogi'r bydwagedd sydd newydd gymhwyso yn ystod eu blwyddyn gyntaf o ymarfer drwy ddatblygu ac ategu'r cymwyseddau a enillwyd yn ystod eu hyfforddiant. Roeddem o'r farn bod hwn yn faes o arfer sy'n werth ei nodi.

---

<sup>9</sup>Pecyn hyfforddi amlbroffesiynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw PROMPT (Hyfforddiant Amlbroffesiynol Obstetreg Ymarferol) ar gyfer argyfyngau obstetreg. Mae'n gysylltiedig â gwelliannau uniongyrchol mewn canlyniadau amenedigol ac wedi'i brofi i wella gwybodaeth, sgiliau clinigol a gweithio mewn tîm.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r ffordd y bydd yn sicrhau bod ei weithlu:

- Yn cynnal ac yn datblygu cymwyseddau i ddiwallu anghenion cleifion
- Yn mynychu rhaglen sefydlu a rhaglenni hyfforddiant gorfodol

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr oruchwyliaeth glinigol a ddarperir yn briodol i nifer ac anghenion ei weithlu

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yn ystod yr arolygiad yr oedd yn ofynnol mynd i'r afael â nhw yn uniongyrchol.			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg

### Ward/adran: Ward 10, ward 11 a'r ward egsor

### Dyddiad arolygu: 15 - 17 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod offer/meddyginiaeth dadebru ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio bob amser pe bai argyfwng yn ymwneud â chlaf yn digwydd ar Ward 10, Ward 11 a'r Ward Esgor.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod offer/meddyginiaeth dadebru ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio bob amser ym mhob ward ac adran arall o fewn y bwrdd iechyd.</p>	Safon 2.6 a 2.9	<p>Cyfarfod adborth wedi'i gynnal â'r staff, gan gynnwys y staff cymorth, y diwrnod canlynol.</p> <p>Cymerwyd cofnodion y cyfarfod a'u rhannu â'r staff i gyd drwy e-bost.</p> <p>Yr Uwch Fydwraig, Rheolwr y Ward a'r fydwraig glinigol wedi adolygu'r broses bresennol er mwyn gwirio'r offer.</p> <p>Y broses wedi'i symleiddio. Nodwyd Cydgysylltydd Band 7 fel y person cyfrifol ar y Ward Esgor i sicrhau</p>	<p>Uwch Fydwraig</p> <p>Cydgysylltwyr Band 7</p>	<p>18 Hydref 2018</p> <p>22 Hydref 2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>bod yr offer dadebru i gyd yn cael ei wirio'n ddyddiol. Nodwyd Rheolwr y Ward fel y person cyfrifol ar gyfer Ward 10 a Ward 11.</p> <p>Tystiolaeth o gydymffurfiaeth 100% â'r gwiriadau dyddiol i'w chyflwyno i'r Uwch Fydwraig bob wythnos.</p> <p>Rheolwr y Ward i gynnal archwiliad ar hap bob pythefnos er mwyn sicrhau bod y broses newydd yn cael ei sefydlu.</p> <p>Adrodd ar ganfyddiadau'r archwiliad i'r cyfarfod Llywodraethu Clinigol misol.</p> <p>Trafod y camau gweithredu a gymerwyd gyda Jane Phillips HoM Support ABMU er mwyn sicrhau bod y camau a gymerwyd wedyn yn cael eu rhannu a'u rhoi ar waith yn PCH.</p>	<p>V Box Rheolwr y Ward</p> <p>V Box Rheolwr y Ward</p> <p>V Box Rheolwr y Ward</p> <p>V Box Rheolwr y Ward</p> <p>Uwch Fydwraig</p>	<p>22 Hydref 2018</p> <p>29 Hydref 2018</p> <p>5 Tachwedd 2018</p> <p>19 Tachwedd 2018</p> <p>24 Hydref 2018</p>
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i ddiogelu cynaliadwyedd y	Safon 2.1 a 7.1	Cynhelir Sgrymiau Diogelwch wrth drosglwyddo rhwng sifftiau lle caiff risgiau posib, lefelau staffio a'r camau sy'n cael eu cymryd i gynnal	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Llawfeddygaeth/	29 Mawrth 2019

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>gwasanaeth.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod iechyd a llesiant ei staff yn cael ei gynnal a'i amddiffyn.</p>		<p>gwasanaeth diogel ac effeithiol eu rhannu â'r timau amlddisgyblaethol, gyda'r camau lliniaru sy'n cael eu cymryd yn cael eu nodi'n eglur.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd sicrwydd yn ymdrin â diogelwch y gwasanaeth bob wythnos. Mae Uwch Fydwragedd, Clinigwyr, Rheolwyr Cyfarwyddiaethau ac aelodau o'r timau Diogelwch Cleifion yn cymryd rhan ynddynt.</p> <p>Bob mis, mae'r trefniadau llywodraethu wedi'u rhannu fel a ganlyn: Wythnos 1 a 2 , mae'r Grŵp Gwasanaethau Gweithredol Mamolaeth yn cyfarfod i fonitro materion megis lefelau staffio diogel, a'r defnydd o staff locwm.</p> <p>Mae cynllun wrth gefn ar waith, wedi'i gefnogi gan weithdrefnau uwchgyfeirio, pan effeithir ar lefelau staffio gan absenoldebau staff neu o ganlyniad i lefelau aciwtedd dwys ymhlith y cleifion. Caiff</p>	Mamolaeth	

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gwasanaethau eu cyfyngu yn unol â'r Polisi Uwchgyfeirio pan na chyflawnir lefelau staffio diogel, gan gynnwys cymorth gan Fyrddau lechyd cyfagos i dderbyn llif cleifion, fesul achos.</p> <p>Wythnos 3, Grŵp Sicrwydd Mamolaeth Gweithredol, wedi'i Gadeirio gan yr Arweinydd Gweithredol ar gyfer Mamolaeth, yr Athro Angela Hopkins. Cyfarfod nesaf ar 30 Hydref 2018.</p> <p>Wythnos 4, Bwrdd Gwella Strategol y Gwasanaethau Mamolaeth, gyda rhanddeiliaid allanol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, DU ac estynnir gwahoddiad i AGIC. Wedi'i gadeirio gan gyn-Gyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol GIG Cymru, Denise Llewelyn. Cyfarfod cyntaf ar 6 Tachwedd 2018.</p> <p>Dechreuodd 8.8 bydwaig raddedig newydd cyfwerth ag amser llawn (call) yn eu swyddi, gyda'r cyfnod</p>	<p>DoN</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio wedi ymddeol</p> <p>A Symes Uwch Fydwaig</p> <p>Uwch Fydwaig</p>	<p>30 Hydref 2018</p> <p>6 Tachwedd 2018</p> <p>8 Hydref 2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>hyfforddi o 6 wythnos yn parhau.</p> <p>Ar ôl proses sefydlu drylwyr, bydd y bydwagedd hyn yn dechrau ar eu dyletswyddau clinigol.</p>	Uwch Fydwraig	19 Tachwedd 2018
		<p>Mae 4.84 bydwraig call Band 6 arall wedi'u recriwtio ac ar ôl y gwiriadau cyn cyflogi, a'r cyfnod sefydlu, byddant yn dechrau ar eu dyletswyddau clinigol.</p>	Uwch Fydwraig	3 Rhagfyr 2018
		<p>Cynhaliwyd rhagor o gyfweiliadau am fydwragedd ar 24 Hydref 2018, a phenodwyd 1.64 bydwraig call Band 6 ychwanegol.</p>	Uwch Fydwraig HoM Support ABMU	3 Rhagfyr 2018
		<p>Mae hysbyseb barhaus ar y GIG am fydwragedd.</p>		Mawrth 2019
		<p>O 19 Tachwedd 2018, bydd cynllun ar waith i gynnig i fydwragedd graddedig a phrofiadol gael eu trosglwyddo i Ysbyty Brenhinol Morgannwg.</p>	Uwch Fydwraig /Partner Busnes Adnoddau Dynol	19 Tachwedd 2018
		<p>Mae'r lefelau staffio wedi gwella yn</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Ysbyty Brenhinol Morgannwg dros y pythefnos diwethaf o ganlyniad i ostyngiad yn y lefel salwch. Mae'r lefelau salwch yn cael eu dadansoddi i nodi tueddiadau mewn salwch byrdymor a hirdymor. Mae prosesau cymorth a rheoli salwch parhaus ar gael i annog staff i ddychwelyd i'r gwaith.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i dalu tâl dwbl i bob aelod o'r staff sy'n gweithio sifftiau goramser yn ystod cyfnod o 8 wythnos. Mae hyn yn cael ei fonitro'n ofalus, a cheir meini prawf y cytunwyd arnynt er mwyn lleihau'r risg bod y staff yn gweithio gormod o oriau.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i ddarparu swyddogion i gyflenwi dyletswyddau Clercod Wardiau bob awr o'r dydd, er mwyn helpu gyda gweithgareddau nad ydynt yn rhai clinigol a wnaed yn flaenorol gan y staff clinigol.</p>	<p>DoN</p> <p>Uwch Fydwraig</p> <p>Uwch Fydwraig Cymunedol</p>	<p>22 Hydref 2018</p> <p>1 Hydref 2018</p> <p>30 Tachwedd 2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae dwy fydwraig call wedi'u trosglwyddo o'r Gymuned dros dro i weithio yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae staff y clinig Cynenedigol yn cyflenwi ar gyfer yr Aseidiadau Dydd nes clywir yn wahanol.</p> <p>Lle bo angen, sicheir meddyg locwm Haen 1 er mwyn rhyddhau'r Uwch Fydwraig Glinigol i weithio fel Bydwraig Glinigol.</p> <p>Mae lechyd a Llesiant y staff yn cael ei gymryd o ddifrif. Mae'r tîm Gweithredol a Thîm y Gyfarwyddiaeth, gan gynnwys Adnoddau Dynol, yn ymweld â'r ardal glinigol bob wythnos.</p> <p>Mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cynnal cyfarfodydd, gyda gwahoddiad i bob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol eu mynychu.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol yn cynnal dau gyfarfod</p>	<p>Dirprwy Reolwr y Gyfarwyddiaeth Tîm Gweithredol</p> <p>DoN</p> <p>Dirprwy Reolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Partner Busnes</p>	<p>24 Medi 2018</p> <p>24 Hydref 2018</p> <p>Wythnosol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>wythnosol, gyda gwahoddiad i bob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol eu mynychu.</p> <p>Darperir diweddariadau cyfathrebu i bob aelod o'r staff yn wythnosol, gan gynnwys "Dywedoch Chi, Gwnaethon Ni" yn dilyn awgrymiadau gan y Prif Swyddog Gweithredol dros wasanaethau mamolaeth.</p> <p>Mae'r tîm lechyd Galwedigaethol wedi cytuno i roi blaenoriaeth i staff mamolaeth yn y broses recriwtio ac wrth reoli salwch.</p> <p>Ceir cynllun sy'n cyfeirio unrhyw aelod o'r staff at Seicolegydd Clinigol os hoffent drafod unrhyw faterion, boed yn rhai proffesiynol neu bersonol.</p> <p>Lle y bo'n briodol, cafodd staff o Fyrddau lechyd cyfagos eu recriwtio er mwyn darparu cymorth</p>	<p>Adnoddau Dynol</p> <p>Seicolegydd Clinigol.</p> <p>Dirprwy Reolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol</p>	<p>Wythnosol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ychwanegol.</p> <p>Coleg Brenhinol y Bydwagedd yn cynnal ymweliadau rheolaidd â'r safle.</p> <p>Hysbyseb ar gyfer swyddi Meddygon Ymgynghorol Iocwm – Cyfweliadau ar 26 Hydref 2018.</p> <p>Swyddi Meddygon Ymgynghorol Parhaol yn cael eu cyflwyno i RCOG i'w cymeradwyo.</p> <p>Swyddi Cyfarwyddwyr Clinigol Cynorthwyol yn cael eu hysbysebu a'u penodi ar gyfer y ward esgor a gynecoleg.</p> <p>Rolau arweiniol yn yr adran i'w cytuno â'r tîm o Feddygon Ymgynghorol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Clinigol</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol</p>	<p>26 Hydref 2018</p> <p>9 Tachwedd 2018</p> <p>9 Tachwedd 2018</p> <p>26 Hydref</p>

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):** Angela Hopkins

**Teitl swydd:** Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion

**Dyddiad:** 26 Hydref 2018

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg

### Ward/adran: Ward 10, ward 11 a'r ward egsor

### Dyddiad arolygu: 15 - 17 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu cyfleusterau toiled i bartneriaid geni yn ystod y broses esgor.	4.1 Gofal Gydag Urddas	Bydd y gwasanaeth yn adolygu'r cyfleusterau yn yr ardaloedd geni a'r ardaloedd o'u hamgylch i nodi toiled addas.  Ar hyn o bryd, mae'r unig doiledau sydd ar gael yn y ward ei hun – yr ymddengys ei bod yn ystyriaeth bwysig o ran: Urddas y menywod eraill ar y ward. Bydd y partneriaid yn cael cynnig defnyddio'r cyfleusterau yn yr ystafell eni	Uwch Fydwraig ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg	30 Ebrill 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>os yw'r enedigaeth ar fin digwydd. Eglurir ble mae'r cyfleusterau agosaf i'r partneriaid geni pan fyddant yn yr uned.</p> <p>Ym mis Mawrth 2019, pan fydd y gwasanaethau'n symud i Ysbyty'r Tywysog Siarl, bydd gan y ganolfan eni yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg gyfleusterau ychwanegol i bartneriaid geni gan y bydd yr ardaloedd clinigol presennol yn cael eu rhyddhau.</p> <p>Bydd y fydwraig profiad menywod yn sicrhau bod cyfle i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth roi sylwadau ar amgylchedd y gofal a'r cyfleusterau a darperir. Bydd yr holl adborth yn rhan o'r wybodaeth a rennir drwy gyfarfodydd llywodraethu'r gyfarwyddiaeth.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth am Gweithio i Wella, er mwyn cefnogi cleifion a allai ddymuno codi pryder neu wneud cwyn, gan gynnwys arddangos y manylion cyswllt ar gyfer y Cyngor Iechyd Cymuned.</p>	<p>6.3 Gwrandao a dysgu o adborth</p>	<p>Rhoddir gwybodaeth ym mhob ward a chlinig yn rhoi gwybod i fenywod a'u teuluoedd sut y gallant godi pryder.</p> <p>Bydd gwybodaeth am y cyngor iechyd cymuned a thafleuni yn hysbysebu'r gwasanaethau a ddarperir yn cael eu</p>	<p>Bydwraig profiad menywod</p>	<p>31 Rhagfyr 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>harddangos ochr yn ochr â 'Gweithio i Wella'</p> <p>Bydd y fydwraig arbenigol ar gyfer Profiad Menywod a gyflogwyd yn ddiweddar yn gyfrifol am sicrhau y ceir gwybod am brofiad y menywod, boed yn brofiad cadarnhaol neu negyddol, ac y cymerir camau dilynol ar hyn.</p> <p>Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswilt Cleifion (PALS) a fydd yn darparu cymorth ychwanegol a byddant yn amlwg yn y wardiau mamolaeth er mwyn cael adborth 'amser real' gan fenywod a'u teuluoedd.</p> <p>Bydd adborth ar y cyfryngau cymdeithasol, a gaiff ei fonitro ar hyn o bryd, yn cael ei rannu â'r tîm mamolaeth.</p>		<p>31 Rhagfyr 2018</p> <p>Cwblhawyd Tachwedd 2018</p> <p>Dechreuwyd Rhagfyr 2018</p> <p>14 Rhagfyr 2018</p>
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y trefniadau mynediad i'r wardiau yn ddiogel er mwyn	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a	Mae dwy set o ddrysau diogelwch dwbl wrth fynedfeydd yr uned, gyda siambr	Uwch Fydwraig ar gyfer Ysbyty	Cwblhawyd 12 Rhagfyr 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>amddiffyn y staff a'r cleifion.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw'r matiau yn yr ystafell eni yn yr AMU yn peri perygl y bydd staff a chleifion yn baglu.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffordd ddiogel o fynd i mewn ac allan o'r pwll geni.</p>	diogelwch	<p>aerglos rhyngddynt. Mae un set o ddrysau dwbl yn cau ac yn cloi cyn y gellir rhyddhau'r ail set, gan gynnig ffordd ddiogel o fynd i mewn ac allan o'r wardiau. Mae arwyddion newydd wedi'u rhoi wrth y fynedfa a'r allanfeydd er mwyn rhoi gwybod i ymwelwyr i beidio â chaniatáu i ymwelwyr eraill ddod i mewn i'r ward heb ddefnyddio'r system intercom ymwelwyr i geisio caniatâd i ddod i mewn, ac i'r set gyntaf o ddrysau gael eu hagor o'r tu mewn i'r uned famolaeth. Bydd ymarfer diogelwch yn cael ei gynnal i roi prawf ar y system. Rhoddir gwybod i'r staff am ganlyniad yr ymarfer.</p> <p>Mae'r matiau geni wedi'u rhoi heibio a byddant yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen.</p> <p>Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa i sicrhau eu bod yn cau'r drws i ystafell y pwll geni pan fydd yn cael ei defnyddio, yn ogystal â chau'r llenni i ardal yr Uned a Arweinir gan Fydwagedd ac ystafell y</p>	<p>Brenhinol Morgannwg</p> <p>Uwch Fydwraig ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg</p> <p>Uwch Fydwraig ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg</p> <p>Swyddog arweiniol yr AMU / Uwch Fydwraig ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg</p>	<p>31 Rhagfyr 2018</p> <p>Cwblhawyd 12 Rhagfyr 2018</p> <p>Cwblhawyd 12 Rhagfyr 2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>pwll geni, er mwyn sicrhau'r lefelau uchaf o breifatrwydd. Bydd prif nyrs y ward esgor a'r uwch fydwraig yn monitro hyn yn barhaus, a bydd yr arfer yn cael ei herio os gwelir diffyg cydymffurfiaeth.</p> <p>Mesurau sydd eisoes ar waith:</p> <p>Gorchudd llawr gwrthlithro i'w ddefnyddio mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd yn wlyb dan draed - tebyg i'r hyn a geir mewn ystafelloedd newid mewn pyllau nofio</p> <p>Mae menywod yn defnyddio gris gwrthlithro i fynd i mewn i'r pwll gyda chymorth eu partneriaid geni a'u bydwragedd</p> <p>I ddod allan o'r pwll, mae menywod yn camu o'r pwll i'r sedd yn y pwll ac yna ar y gris, gyda chymorth y fydwraig a'r partner geni</p> <p>Mae pob aelod o'r staff sy'n darparu</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gofal wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r pwll, gan gynnwys diogelwch y menywod a dod allan o'r pwll mewn argyfwng</p> <p>Yn ogystal, bydd y gwasanaeth yn archwilio'r opsiwn o ddefnyddio gris sydd â chanllaw ynghlwm wrtho.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau stoc cyfarpar diogelu personol yn cael eu cynnal yn ddigonol bob amser er mwyn cefnogi'r staff i ymgymryd â'u rolau.</p>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Mae stociau ychwanegol o gyfarpar diogelu personol wedi'u harchebu ar gyfer pob ardal ac mae'r staff wedi'u hatgoffa o bwysigrwydd gwisgo'r cyfarpar yn ystod triniaethau.</p> <p>Proses wirio ddyddiol wedi'i chyflwyno i gynnwys sicrhau y cynhelir lefelau stoc y cyfarpar hwn</p> <p>Rhodddwyd gwybod i'r staff bod cyflenwadau ychwanegol o gyfarpar diogelu personol ar gael gan reolwyr gwelyau'r ysbyty.</p>	<p>Uwch Fydwraig</p> <p>Prif nyrsys y ward</p> <p>Uwch Fydwraig ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg</p>	<p>Cwblhawyd 12 Rhagfyr 2018</p> <p>Cwblhawyd 12 Rhagfyr 2018</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd cloi oergelloedd meddyginiaeth a'u bod yn cael eu</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Gofynnwyd i staff y wardiau sicrhau bod yr oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu</p>	<p>Prif nyrsys y ward</p>	<p>Cwblhawyd 12 Rhagfyr 2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>cadw dan glo pan na fyddant yn cael eu defnyddio, a bod y staff yn cofnodi tymheredd yr oergelloedd yn ddyddiol.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau cyffuriau a reolir yn cael eu cynnal yn gyson bob dydd.</p>		<p>cloi bob amser.</p> <p>Bydd yn cael ei gynnwys yn archwiliadau sicrwydd misol yr uwch fydwragedd.</p> <p>Mae cofnodi tymheredd yr oergelloedd cyffuriau wedi'i gynnwys ar y daflen cofnodi gwiriadau dyddiol. Yn ogystal, rhoddwyd larymau ar yr oergelloedd a fydd yn canu os bydd y tymheredd yn mynd yn uwch na'r lefel briodol er mwyn rhoi gwybod i'r staff.</p> <p>Mae'r protocol uwchgyfeirio os bydd hyn yn digwydd yn cael ei aildosbarthu i'r staff.</p>	Uwch Fydwragedd	<p>31 Ionawr 2019</p> <p>Cwblhawyd 12 Rhagfyr 2018</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyfarpar ar gael i'r staff er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau mewn modd amserol.</p>	<p>2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol</p>	<p>Gofynnwyd i bob ardal glinigol roi gwybod am eu gofynion o ran cyfarpar, ac mae'r cyfarpar hynny wedi'i archebu. Gwnaed cais am ddsbarthu brys er mwyn ymdrin â'r mater.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Dyddiadau dosbarthu yn ystod yr wythnosau nesaf, yn debygol o gael ei gwblhau ym mis Chwefror</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae'r cyfrifoldeb a'r broses ar gyfer rhoi gwybod bod cyfarpar wedi torri a chael cyfarpar newydd yn ei le wedi'i gyfleu unwaith eto i brif nyrsys y wardiau.</p>	Prif nyrsys y ward	<p>2019</p> <p>Cwblhawyd 12 Rhagfyr 2018</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys labeli adnabod cleifion priodol a dyddiadau ar bob tudalen.</p>	3.5 Cadw cofnodion	<p>Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa bod yn rhaid defnyddio labeli cofnodi cleifion ar bob darn o ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â chlaf, a hynny er mwyn cefnogi gofal diogel ac er mwyn bodloni gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.</p> <p>Caiff hyn ei fonitro drwy'r archwiliadau sicrwydd misol, y bydd y bydwreigedd yn eu cynnal fel rhan o broses dysgu ac adolygu gan gymheiriaid, a bydd hefyd yn cael ei gynnwys yn yr archwiliad cadw cofnodion blynyddol.</p> <p>Defnyddir canfyddiadau'r archwiliadau i roi adborth i'r staff er mwyn cynnal</p>	Pennaeth Bydwreigiaeth	<p>Cwblhawyd 13 Rhagfyr 2018</p> <p>Cwblhawyd yr archwiliad cyntaf 31 Ionawr 2019</p> <p>Diwedd mis Rhagfyr 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		safonau cadw cofnodion. Cânt eu hadrodd yn y fforwm proffesiynol bydwreigiaeth ac yn y cyfarfodydd archwilio yn 2019.		
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod y llwybrau cyfathrebu wedi'u diffinio'n glir fel bod gan staff yr holl wybodaeth am newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u gwaith.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod cymorth ac adborth yn cael ei roi i staff ar ôl unrhyw faterion/pryderon a godwyd, mewn cysylltiad â darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am adolygu digwyddiadau Datix yn cael yr amser a'r adnoddau i allu gwneud hynny o fewn yr</p>	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Nodyn briffio staff wythnosol yn cael ei anfon gan y Cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau bod yr holl negeseuon yn cael eu rhannu. Mae hyn yn cynnwys adborth ar y camau a gymerir gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn dilyn y sesiynau briffio staff misol neu yn ystod ymweliadau â'r uned, lle bydd y staff yn codi materion neu'n cynghori ar atebion. Bu'r defnydd o'r atodiad 'Dywedoch Chi: Gwnaethon Ni' yn y negeseuon ysgrifenedig wythnosol gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion yn ddefnyddiol iawn er mwyn nodi cynnydd a'r ffordd y cafodd materion a godwyd eu datrys.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi</p>	Uwch fydwragedd	Cwblhawyd 7 Rhagfyr 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>amserlen y cytunwyd arni.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod archwiliadau priodol yn cael eu cynnal ar y wardiau er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod gweithio amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu er mwyn llesiant y staff a'r cleifion.</p>		<p>sicrhau y cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd ag aelodau'r Bwrdd, sy'n cynnwys ymweld â'r staff y tu allan i oriau pan fydd y weithrediaeth ar alw ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan.</p> <p>Mae gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol wedi darparu mynediad hawdd at ddulliau cefnogi llesiant. Mae cymorth seicoleg clinigol ar gael ac yn agored i bob aelod o'r staff – mae hyn wedi'i gyfathrebu drwy'r rheolwyr.</p> <p>Bydd yr uwch fydwragedd yn monitro'r digwyddiadau yn eu hunedau. Bydd yr uwch fydwragedd yn derbyn hyfforddiant a chymorth i'w rheoli.</p> <p>Sicrhawyd cymorth ychwanegol i reoli'r ôl-groniad o ddigwyddiadau drwy gymryd aelod o staff ar secondiad o Fwrdd Iechyd arall tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.</p>	<p>Uwch Fydwragedd</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 31 Hydref 2018</p> <p>Cwblhawyd Hydref 2018</p> <p>31 Mawrth 2019</p> <p>I ddechrau 31 Ionawr 2019</p> <p>Ionawr 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Datblygwyd adnodd archwilio sicrwydd newydd gyda gofyniad i gynnal archwiliadau sicrwydd misol ym mhob un o'r meysydd clinigol.</p> <p>Caiff y canfyddiadau eu rhannu yn y fforymau proffesiynol misol a thrwy archwiliadau mewn cysylltiad ag unrhyw ganfyddiadau meddygol y bydd angen eu rhannu.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi cyflwyno PROMPT ac mae ymhell ar y blaen o amserlen ddisgwyliedig Cronfa Risg Cymru o ran ei roi ar waith.</p> <p>Mae'r Uwch Dîm Bydwagedd yn mynychu cyfarfod trosglwyddo aml-ddisgyblaethol er mwyn cael sicrwydd bod y trosglwyddo'n cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i gefnogi diogelwch a rheolaeth gweithgarwch y sifft. Bydd hyn yn parhau'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Bydd</p>	<p>Uwch fydwagedd</p> <p>Swyddog arweiniol PROMPT ar ran y Bwrdd Iechyd</p> <p>Uwch fydwagedd</p>	<p>I'w adolygu ym mis Ionawr 209</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>canfyddiadau'r arsylwadau yn cael eu rhannu yn y cyfarfod proffesiynol bydwreigiaeth ac archwilio</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ariannu a chefnogi uwch fydwragedd clinigol a meddygon ymgynghorol obstetreg ac anesthetig i fynychu rhaglen arwain wardiau esgor Coleg Brenhinol y Bydwreagedd yn Nulyn. Cafwyd gwerthusiad da ohoni ac mae'r tîm wedi dychwelyd i Ysbyty Brenhinol Morgannwg gyda menter gwella ansawdd arfaethedig.</p> <p>Mae gwasanaethau mamolaeth wedi adolygu'r strwythur Ansawdd a Diogelwch presennol ac wedi datblygu strwythur adrodd newydd sy'n cynnwys y tîm amlddisgyblaethol, a fydd yn sicrhau bod dulliau cadarn ar waith i gefnogi gwaith Tîm Amlddisgyblaethol yn y dyfodol. Cafodd y strwythur hwn ei gymeradwyo yn y Bwrdd Sicrwydd</p>	<p>Tîm Gyfarwyddiaeth y</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 6 Rhagfyr 2018</p> <p>Cwblhawyd 4 Rhagfyr 2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mamolaeth gyda Llywodraeth Cymru.		
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r ffordd y bydd yn sicrhau bod ei weithlu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn cynnal ac yn datblygu cymwyseddau i ddiwallu anghenion cleifion</li> <li>• Yn mynychu rhaglen sefydlu a rhaglenni hyfforddiant gorfodol</li> </ul> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr oruchwyliaeth glinigol a ddarperir yn briodol i annifer ac anghenion ei weithlu</p>	7.1 Y gweithlu	<p>Mae'r lefelau hyfforddiant yn cael eu monitro ac mae fforwm hyfforddiant ac addysg newydd yn cael ei sefydlu i sicrhau y cynhelir rhaglenni hyfforddiant amlddisgyblaethol sy'n adlewyrchu gofynion clinigol y gwasanaeth.</p> <p>Mae cronfa ddata hyfforddiant newydd ar waith erbyn hyn ar gyfer hyfforddiant meddygol, bydwreigiaeth a staff cymorth. Mae hyn yn sicrhau bod modd cynnal proses monitro cydymffurfiaeth gyfredol er mwyn cael lefel cwblhau o 100%.</p> <p>Mae'r gwasanaethau mamolaeth newydd benodi Goruchwyliwr Bydwagedd Clinigol (CSfM) a chafwyd datganiadau o ddiddordeb gan fydwragedd eraill, a fydd yn sicrhau y cyflawnir y gymhareb o CSfM i fydwragedd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Bydwraig Datblygu Ymarfer a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>I'w ddechrau ym mis Chwefror 2019</p> <p>Mawrth 2019</p> <p>31 Ionawr 2019</p>

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):** Jane Phillips

**Teitl swydd:** Pennaeth Cynorthwyol Bydwreigiaeth **Dyddiad:** 13 Rhagfyr 2018